**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i bolisi ar amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion

Mai 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i bolisi ar amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion

Mai 2012

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gan roi iddo'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys gofal cymdeithasol ar eu cyfer.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Angela Burns**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Lynne Neagle**
Llafur Cymru
Tor-faen



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 5

**1. Cefndir** ..... 6

**2. Ymchwiliad Pwyllgor** ..... 7

**3. Materion allweddol ac argymhellion** ..... 8

Eli haul ..... 8

Polisi a chanllawiau ar amddiffyn rhag yr haul ym maes addysg ..... 9

Y Cyfnod Sylfaen ..... 11

Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ..... 12

Addysg haul ..... 12

**Atodiad A – Tystion** ..... 14

**Atodiad B – Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 15

**Atodiad C – Ymatebion i'r ymgynghoriad** ..... 16

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor I'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch I'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth o ganllawiau presennol *Herio'r Haul* mewn lleoliadau addysgol. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 2.** Fel rhan o bolisïau iechyd a diogelwch ehangach, dylai ysgol gael dogfen sy'n amlinellu agwedd yr ysgol at ystod o ffactorau amgylcheddol a all effeithio ar blant yn ystod eu diwrnod yn yr ysgol, gan gynnwys gofynion cysgod ac amddiffyn rhag yr haul, a thywydd gwlyb neu oer. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 3.** Dylid cyflawni gwaith trwy fecanweithiau cyfredol, fel elfen Lles fframwaith arolygu Estyn, er mwyn nodi a rhannu arferion da mewn perthynas â dulliau amddiffyn rhag yr haul rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 4.** Dylid rhoi sylw i'r cyfarpar a ddarperir, a'r gofynion gwisg ysgol, ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol i fod allan yn yr awyr agored mewn pob math o dywydd. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd sy'n cynnwys yr arferion gorau i'w dilyn wrth ddarparu cysgod mewn adeiladau ysgol newydd ac wrth ailwampio adeiladau cyfredol. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ysgolion a'r trydydd sector barhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg amddiffyn rhag yr haul i blant. (Tudalen 13)

# 1. Cefndir

1. Ar 4 Hydref 2011, cafodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol ddeiseb gan elusen ganser Tenovus a oedd yn dweud:

> "Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu eli haul am ddim i bob plentyn o dan 11 oed yng Nghymru."[1]

2. Cyfeiriwyd y ddeiseb, a oedd yn cynnwys dros 9,000 o lofnodion pan gafodd ei chyflwyno i'r Cynulliad, i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'w hystyried.

3. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r mater ehangach o amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion, gan gynnwys gwisgo dillad addas a darparu cysgod mewn ysgolion.[2]

[1] P-04-337 *Tenovus: Free sunscreen*, 4 Hydref 2011
[2] Cofnodion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc CYP(4)-04-12, 1 Chwefror 2012

# 2. Ymchwiliad Pwyllgor

4. Galwodd y Pwyllgor am dystiolaeth ac aeth ati i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig wedi'i dargedu. Cafwyd wyth ymateb i'r ymgynghoriad. Ni chafodd y syniad o ddarparu eli haul am ddim gefnogaeth gyffredinol, gydag ymatebwyr yn awgrymu bod ymddygiad diogel, megis gwisgo dillad addas neu ddarparu cysgod pan fo'r haul yn gryf, yn fwy pwysig. Cyfeiriwyd hefyd at fanteision iechyd caniatáu i blant weld rhywfaint o'r haul, er enghraifft, er mwyn cael fitamin D. Mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â'r ffaith bod staff yr ysgol yn rhoi eli haul ar blant.

5. Mewn sesiwn tystiolaeth lafar ar 21 Mawrth, cafwyd tystiolaeth gan Tenovus, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru (NAHT) a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL).

6. Mae rhestri o dystion ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r ymchwiliad hwn yn Atodiadau A, B ac C.

# 3. Materion allweddol ac argymhellion

## Eli haul

7. Clywodd y Pwyllgor gan yr holl dystion ar 21 Mawrth mai dim ond un elfen ymhlith nifer y dylai darparu eli haul fod mewn agwedd gyfannol at amddiffyn rhag yr haul. Dywedodd Tenovus fod ei deiseb wedi canolbwyntio ar eli haul oherwydd y gost i lawer o deuluoedd,[3] ond ei bod yn falch bod cyd-destun ehangach materion amddiffyn rhag yr haul yn cael sylw.[4]

8. Mynegwyd pryderon yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynglŷn ag unrhyw gynnig i orfodi ysgolion i ddarparu eli haul i blant, gan gyfeirio at hylendid, alergeddau posibl, goblygiadau amser ac adnoddau a materion amddiffyn plant. Dywedodd CLlLC fod modd goresgyn y materion hyn, ond y byddai angen eu hystyried yn ofalus.[5] Dywedodd NAHT wrth y Pwyllgor y byddai'n poeni pe bai pwysau'n cael ei roi ar ei haelodau i roi eli haul ar gyrff plant.[6]

9. Pe bai eli haul yn cael ei ddarparu mewn ysgolion, waeth a fyddai'n cael ei ddarparu gan rieni neu ysgolion, nododd y Pwyllgor y byddai angen mwy o eglurder ar ganllawiau presennol ynglŷn ag athrawon, gwarchodwyr plant neu staff ysgolion meithrin yn dod i gysylltiad corfforol â phlant wrth roi eli haul ar eu cyrff.

10. Cyflwynodd CLlLC dystiolaeth o amcangyfrifon cost a oedd yn dangos y gallai darparu eli haul i blant mewn ysgolion cynradd ledled Cymru gostio tua £3.4 miliwn y flwyddyn.[7] Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gyngor Dermatoleg Cymru, ac a ardystiwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr, ni fyddai darparu eli haul am ddim yn cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau. Y consenswS cyffredinol ymhlith arbenigwyr ym maes amddiffyn rhag yr haul yw mai dim ond ar ôl rhoi sylw priodol i addasu ymddygiad y plant mewn perthynas â'r haul y dylid ystyried defnyddio eli haul.[8]

---

[3] ROP [para 51], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[4] Papur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (CYP(4)-10-12 Papur 1, *Ymchwiliad i Bolisi ar Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Tenovus, 21 Mawrth 2012
[5] ROP [para 144], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[6] Ibid [para 247]
[7] Ibid [para 136]
[8] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bolisi ar Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Ymateb Cyngor Dermatoleg Cymru i'r ymgynghoriad, CYP(4) SP03

11. Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, amlinellodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrch *Herio'r Haul* a'i gwaith gyda Cancer Research UK i ddatblygu canllawiau polisi ar amddiffyn plant rhag yr haul ar gyfer meithrinfeydd ac ysgolion yng Nghymru. Yn ôl y Gweinidog, mae cyfran y bobl sy'n amddiffyn eu hunain rhag yr haul yn dal i fod yn gymharol isel, felly mae angen parhau i weithredu ym maes amddiffyn rhag yr haul ac ymwybyddiaeth o ganser y croen.[9]

12. Er mwyn diwallu'r angen hwn, dywedodd y Gweinidog y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros raglen atal canser y croen. Defnyddio eli haul yw un o'r mesurau a hyrwyddir gan Cancer Research UK, ond dim ond fel un elfen o ddull ehangach.

13. Croesawodd y Pwyllgor yr agwedd ehangach at amddiffyn rhag yr haul ac atal canser y croen, a phenderfynodd beidio ag ardystio deiseb Tenovus.

**Polisi a chanllawiau ar amddiffyn rhag yr haul ym maes addysg**

14. Er gwaethaf yr holl ganllawiau sydd ar gael ar amddiffyn rhag yr haul, dywedodd Tenovus ei bod yn dal i glywed tystiolaeth storïol o ymddygiad anniogel mewn perthynas â'r haul wrth ymweld ag ysgolion,[10] a bod ymchwil a gynhaliwyd gan y Teenage Cancer Trust yn awgrymu nad yw bron i draean o bobl ifanc yn eu harddegau'n defnyddio eli haul o gwbl ac y bydd chwarter yn ceisio llosgi'n fwriadol".[11]

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau *Herio'r Haul* ar amddiffyn rhag yr haul i ysgolion a lleoliadau cyn ysgol yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw dystiolaeth sylweddol yn awgrymu nad oedd ysgolion yn ymwybodol o'r canllawiau,[12] ond dywedodd CLlLC fod yna le i godi ymwybyddiaeth a rhannu arferion gorau ac y byddai'n hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.[13]

---

[9] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bolisi Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 12 Ionawr 2012
[10] ROP [para 71-73], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[11] Papur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (CYP(4)-10-12 Papur 1, *Ymchwiliad i Bolisi Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Tenovus, 21 Mawrth 2012
[12] ROP [para 202 a 207], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[13] ibid [para 127 a 131]

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth o ganllawiau presennol *Herio'r Haul* mewn lleoliadau addysgol.**

16. Nid yw canllawiau *Herio'r Haul* yn bolisi ar amddiffyn rhag yr haul; rhestr wirio ydynt o'r ffactorau y dylai ysgolion eu hystyried wrth ddatblygu eu polisïau eu hunain. Awgrymodd tystiolaeth gan CLlLC y byddai polisi safonedig ar amddiffyn rhag yr haul ar gyfer pob ysgol yn aneffeithiol gan na allai ystyried amgylchiadau penodol pob ysgol, er enghraifft, faint o gysgod sydd ar dir yr ysgol.[14]

17. Yn ôl tystiolaeth gan NAHT ac ASCL, er nad yw'n ofynnol i ysgolion gael polisïau penodol ar amddiffyn rhag yr haul, mae penaethiaid yn ystyried materion sy'n ymwneud â ffactorau amgylcheddol, fel dod i gysylltiad â'r haul neu oerfel eithafol, fel rhan o'u polisïau iechyd a diogelwch ehangach.[15] Nid yw hyn yn orfodol, fodd bynnag.

18. Er mwyn i bolisi ar amddiffyn rhag yr haul fod yn ddogfen effeithiol, cytunodd y Pwyllgor y byddai angen i bob ysgol ei ddatblygu'n annibynnol, ac fe'i darbwyllwyd y dylid ystyried ffactorau amgylcheddol eraill hefyd.

**Argymhelliad: Fel rhan o bolisïau iechyd a diogelwch ehangach, dylai ysgol gael dogfen sy'n amlinellu agwedd yr ysgol at ystod o ffactorau amgylcheddol a all effeithio ar blant yn ystod eu diwrnod yn yr ysgol, gan gynnwys gofynion cysgod ac amddiffyn rhag yr haul, a thywydd gwlyb neu oer.**

19. Yn ei thystiolaeth, mynegodd Tenovus bryder nad oedd dulliau ysgolion o amddiffyn plant rhag yr haul yn cael eu monitro, a nododd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn llywio unrhyw waith pellach neu gamau ychwanegol yr oedd angen eu cymryd ledled Cymru.[16] Cytunodd y Pwyllgor gyda'r dystiolaeth a glywodd gan CLlLC, NAHT ac ASCL a nododd y dylid rhannu arferion gorau trwy fecanweithiau cyfredol fel elfen Lles fframwaith arolygu Estyn,[17] Cynlluniau Ysgolion

[14] ROP [para 125 a 131], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[15] Ibid [para 207 a 222]
[16] Ibid [para 45]
[17] ibid [para 231]

Iach – Rhwydwaith Cymru[18] neu drwy adroddiadau blynyddol llywodraethwyr ysgol.[19]

**Argymhelliad: Dylid cyflawni gwaith trwy fecanweithiau cyfredol, fel elfen Lles fframwaith arolygu Estyn, er mwyn nodi a rhannu arferion da mewn perthynas â dulliau amddiffyn rhag yr haul rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.**

**Y Cyfnod Sylfaen**

20. Mae Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored y Cyfnod Sylfaen yn nodi y dylai athrawon ystyried y tywydd a pha gyfarpar/dillad fydd eu hangen ar y plant a'r ymarferwyr. [20] Fodd bynnag, nid yw'n sôn am ddarparu cysgod nac amddiffyn rhag yr haul.

21. Mae'r llawlyfr drwyddo draw yn cyfeirio at bwysigrwydd athrawon yn defnyddio tywydd fel elfen o'r amgylchedd naturiol a all gyfrannu at ddysgu plant, ac mae'n dweud bod plant sy'n mynd allan i'r awyr agored ym mhob tywydd yn fwy gwydn.[21]

22. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Tenovus fod ymchwil a gynhaliwyd yn ne-orllewin Lloegr wedi dangos bod darparu mwy o gysgod ym meysydd chwarae ysgolion yn golygu bod plant yn cael mwy o amser i chwarae yn yr awyr agored ond yn dod i lai o gysylltiad â phelydrau uwchfioled.[22]

23. Cytunodd y Pwyllgor y dylid darparu cyfarpar addas o fewn y cyllidebau presennol fel y gall plant y Cyfnod Sylfaen fod allan yn yr awyr agored yn ddiogel, boed law neu hindda. Bydd y cyfarpar gofynnol yn amrywio o un ysgol i'r llall, ond gellid ystyried darparu hetiau haul fel rhan o adnoddau ysgol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

24. Mewn safleoedd ysgol y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen, gellid hefyd ystyried newid manylion gwisg ysgol, er enghraifft, cynnwys topiau llewys hir ysgafn, hetiau ysgol neu wisg ysgol sy'n cynnwys ffactor amddiffyn rhag yr haul. Nododd y Pwyllgor y byddai angen i unrhyw addasiad i ofynion gwisg ysgol gadw costau mor isel â phosibl.

---

[18] ROP [para 135], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[19] Ibid [para 119]
[20] Llywodraeth Cymru, *Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored y Cyfnod Sylfaen*
[21] Ibid
[22] ROP, [para 92], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Argymhelliad: Dylid rhoi sylw i'r cyfarpar a ddarperir, a'r gofynion gwisg ysgol, ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol i fod allan yn yr awyr agored mewn pob math o dywydd.**

### Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

25. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Dermatoleg Cymru yn dweud y dylai darparu ardaloedd cysgodol fod yn orfodol mewn unrhyw adeiladau newydd. Mewn ysgolion cyfredol, dylid ystyried canopïau, cysgodlenni neu goed.[23]

26. Mewn llythyr i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Addysg fod gan gyrff cyfrifol ddyletswydd i sicrhau bod adeiladau a thir ysgolion yn darparu sicrwydd rhesymol ar gyfer iechyd a diogelwch defnyddwyr, a nododd y gall awdurdodau lleol, trwy'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, gael mynediad i ganllawiau ac arferion gorau wrth ddatblygu cynlluniau adeiladau ysgol newydd neu adeiladau cyfredol.[24]

27. Hefyd, dywedodd y Gweinidog y byddai'r canllawiau'n parhau i gael eu gwella trwy ymgynghori neu weithio gyda sefydliadau fel Tenovus.

28. Fodd bynnag, nododd y dystiolaeth a gafwyd gan NAHT fod rhywfaint o amheuaeth ynglŷn ag a oedd ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u hailwampio'n darparu digon o adnoddau ac ardaloedd cysgodol, ac a oedd penaethiaid yn cyfrannu digon at gynllunio ac adeiladu'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.[25]

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd sy'n cynnwys yr arferion gorau i'w dilyn wrth ddarparu cysgod mewn adeiladau ysgol newydd ac wrth ailwampio adeiladau cyfredol.**

### Addysg haul

29. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth fod nifer yr achosion o felanoma malaen wedi dyblu rhwng 1999 a 2009, sy'n golygu mai dyma'r math

---

[23] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bolisi ar Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Ymateb Cyngor Dermatoleg Cymru i'r ymgynghoriad, CYP(4) SP03

[24] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bolisi ar Amddiffyn Plant Rhag yr Haul*, Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 9 Ionawr 2012

[25] ROP [para 278-280], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

o ganser sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth fod llosg haul sy'n achosi pothelli mewn plant yn dyblu'r perygl y bydd unigolyn yn datblygu canser y croen yn ddiweddarach mewn bywyd.[26] Fodd bynnag, yn ôl y dystiolaeth a gafwyd gan NAHT, roedd yr achosion o losg haul mewn ysgolion yn brin iawn.[27]

30. Rhan o'u hamser yn unig y mae plant yn ei dreulio yn yr ysgol, a dim ond am ran o'r amser hwnnw y maent yn dod i gysylltiad â'r haul. Cytunodd yr holl dystion a gyflwynodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor y dylai'r cyfrifoldeb dros amddiffyn plant rhag yr haul gael ei rannu rhwng rhieni ac ysgolion, a bod yna gyfle i weithio gyda'r trydydd sector i wella addysg amddiffyn rhag yr haul. Dywedodd Tenovus y gallai gweithio gydag ysgolion unigol arwain at oblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau gwirfoddol, ond cytunodd y gallent wneud cyfraniad at ddarparu gwybodaeth mewn ffyrdd arloesol i'w defnyddio mewn ysgolion.[28]

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ysgolion a'r trydydd sector barhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg amddiffyn rhag yr haul i blant.**

[26] ROP [para 6], 21 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[27] Ibid [para 243-244]
[28] Ibid [para 61]

# Atodiad A – Tystion

Darparodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 21 Mawrth 2012. Gallwch weld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1305

| | |
|---|---|
| Dr Ian Lewis | Tenovus |
| Dr Chris Llewelyn<br>Daisy Seabourne | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Gareth Jones | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| Anna Brychan<br>Graham Murphy | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru |

## Atodiad B – Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gallwch weld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=3109&Opt=3

| **Dyddiad** | **Sefydliad** | **Cyfeirnod** |
|---|---|---|
| 21 Mawrth 2012 | Tenovus | CYP(4)-10-12 (p1) |
| 21 Mawrth 2012 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | CYP(4)-10-12 (p2) |
| 21 Mawrth 2012 | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru | CYP(4)-10-12 (p3) |

## Atodiad C – Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau canlynol i'r alwad am dystiolaeth. Gallwch weld yr holl ymatebion yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3109&Opt=0

| | |
|---|---|
| CYP(4) SP01 | Lisa – aelod o'r cyhoedd |
| CYP(4) SP02 | Michael Ball |
| CYP(4) SP03 | Cyngor Dermatoleg Cymru |
| CYP(4) SP04 | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| CYP(4) SP05 | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau |
| CYP(4) SP06 | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| CYP(4) SP07 | Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru |
| CYP(4) SP08 | Coleg Brenhinol y Ffisigwyr |